Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Tachwedd 2018

Annwyl Gadeirydd

Pinewood Studios

Yn ystod sesiwn casglu tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 5 Tachwedd, cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch nifer o bwyntiau. Nodir y pwyntiau hynny yma:

- nodyn i esbonio cyfansoddiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau o £42m
- ffigurau manwl o'r holl gyllid i Pinewood Studio Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf pan ddaw'r sefyllfa derfynol yn hysbys
- amserlen ar gyfer adnewyddu'r ffermdy Gradd II ynghyd â'r holl gostau a ysgwyddwyd hyd yma ar gynnal a chadw'r adeilad a chostau'r gwaith adnewyddu arfaethedig.

Rwyf am drafod pob un o'r pwyntiau hyn yn eu tro.

Cyfansoddiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau o £42m

Yn ystod ein trafodaeth, esboniais fod gwariant Cymru, sef cyfuniad o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a'r cytundeb cydweithio ehangach â Pinewood, ychydig dros £40 miliwn - £42 miliwn - a chytunais i roi nodyn i'r Pwyllgor i ddangos sut mae'r £42 miliwn hwnnw wedi'i wario. Gallaf gadarnhau erbyn hyn mai £44 miliwn yw'r gwariant cyfun, ac mae'r tablau isod yn dangos yn glir sut cafodd yr arian ei wario.

Mae'r tablau'n cynnwys y buddsoddiadau unigol a Gwariant Cymru yn eu sgil ar brosiectau a noddir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, a throsolwg o'r prosiectau ychwanegol a ddaeth i Gymru o ganlyniad i'r cytundeb cydweithio â Pinewood. Y ddau ffigur i'w nodi yw cyfanswm gwariant Cymru hyd yma yn nhablau 3 a 4 (£18,218,135 yn y naill a £26,105,556 yn y llall)

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Tabl 1: Prosiectau a gyllidir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau o dan reolaeth Pinewood

Prosiect	Gwerth y Buddsoddiad (£)	Gwariant Cymru hyd yma (£)[7]
Take Down	3,144,000	1,089,000
Their Finest	2,000,000	1,618,075
The Collection	1,750,000[1]	5,186,676
Show Dogs	1,565,789[2]	4,338,192
Journey's End	850,000	903,006
Don't Knock Twice[3]	629,516	640,557
Minotaur[4]	25,500	N/A[4]
Lionel the First[4]	25,000	N/A[4]
Cyfanswm	**9,989,805**	**13,775,506**

[1]Mae'r buddsoddiad yn cynnwys Grant o £600,000 o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

[2] Mae'r buddsoddiad yn cynnwys grant o £361,842 o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

[3] Neilltuwyd grant o £75,000 hefyd i Don't Knock Twice o dan Gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru .

[4] Nid yw arian datblygu'n cynnwys ymrwymiad Gwariant Cymru.

Roedd y ffigurau'n cynnwys £25,000 ar gyfer "Jack Staff" ond ni chafodd yr arian hwn ei ddwyn i lawr wedi'r cyfan, felly rydym wedi'i dynnu o'r rhestr.

Tabl 2: Prosiectau a noddir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau o dan reolaeth Llywodraeth Cymru (ers [1 Tachwedd 2017])

Prosiect	Gwerth y Buddsoddiad (£)	Gwariant Cymru hyd yma (£)7
Trampires[5]	2,000,000	1,620,701
Eternal Beauty[6]	1,050,000	0[6]
Bang	350,000	2,561,928
Tiny Rebel	317,500	260,000
Goose Green[4]	25,000	N/A[4]
True Believers[6]	621,500	0[6]
Six Minutes To Midnight[6]	750,000	0[6]
Cyfanswm	**5,114,000**	**4,442,629**

[5] Neilltuwyd hefyd grant o £652,572 i Trampires o dan Gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru, gan gynyddu gwariant Cymru i £6,546,501.

[6] Wrthi'n cael ei gynhyrchu neu newydd ei gwblhau. [7] Diffinnir gwariant Cymru fel a ganlyn: Gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir gan fusnesau a rhyddgyfranwyr unigol sydd wedi'u lleoli ac yn gweithredu yng Nghymru, gydag adroddiad Cyfrifydd annibynnol i gadarnhau hynny.

Tabl 3: Buddsoddiadau cyfain y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

	Gwerth y Buddsoddiad (£)	Gwariant Cymru hyd yma (£)[7]
Cyfanswm:	15,103,805	18,218,135

Tabl 4: Prosiectau ychwanegol a ddaeth i Gymru trwy'r Cytundeb Cydweithio â Pinewood

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV*)	Teitl y Cynhyrchiad	Gwariant Cymru hyd yma [7]
2014/15	TCFTV UK Productions	The Bastard Executioner	£15,393,846
2014/15	Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd)	Decline and Fall	£2,074,145
2015/16	Heel Stone Pictures Ltd	Crossing the Border	£1,749,201
2015/16	Vertigo Television Ltd	Britannia VFX	£556,219
2016/17	New Pictures (Requiem Productions Ltd)	Requiem	£3,403,134
2017/18	World Productions (BTK 2016 Ltd)	Born to Kill	£2,929,011
		Cyfansymiau	**£26,105,556.00**

Refeniw Pinewood Studio Cymru

Mae Pinewood Studio Cymru yn cynhyrchu incwm blynyddol ar hyn o bryd o ryw £100,000 gan gynnwys TAW, o Drwyddedau'r Ganolfan Gyfryngau ar y safle. Mae'r ganolfan yn gartref i 17 o gwmnïau pwysig yn y gadwyn gyflenwi gan gynnwys Marigold Costumes Limited, Sgil Cymru Cyf, Alpha Grip (Cardiff) Limited, Movietech Camera Rentals Limited ac Oh So Small Productions Limited.

Mae'r llwyfannau, swyddfeydd cynhyrchu a gweithdai rhyngddynt wedi cynhyrchu rhyw £427,000 gan gynnwys TAW ers dechrau'r cytundebau; 1 Tachwedd 2017 hyd heddiw.

Ffermdy rhestredig Gradd II

Y gost hyd yma ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad yw £642 gan gynnwys TAW. Mae'r costau hynny'n gysylltiedig â diogelu'r safle. Mae swyddogion yn amcangyfrif y bydd angen tri mis i gynnal asesiad llawn o'r adeilad i gyfrif costau ac amserlen y gwaith adnewyddu arfaethedig. Byddwn yn rhannu canlyniad yr asesiad hwn â'r Pwyllgor.

Croeso ichi gysylltu â mi os hoffech fwy o wybodaeth.

Yn gywir

ANDREW SLADE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol